Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

# Cronfa Bensiwn Gwynedd

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Medi 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 563A2016

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad | 8 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 8 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 8 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 9 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd | 12 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 14 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gronfa Bensiwn Gwynedd yw £15,254,000 ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2015-16, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6. Rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth. Ar y dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad hwn, roedd y canlynol heb eu cwblhau:
   - cwblhau ein profion gan gynnwys ar gyfer digwyddiadau ar ôl mantolen ac adolygiadau cofnodion pwyllgorau;
   - cwblhau adolygiadau sicrwydd ansawdd a phartneriaid; a
   - derbyn y llythyr sylwadau.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r rheolwr ymchwilio ar 13 Medi 2016.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

8. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwilia

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**10.** Nodwn isod dau gamddatganiad a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

- Judg
- Ffeithiol – Adnabyddom ddau eitem yng nghyfriflyfr dyledwyr a gyrhaeddodd yn y banc cyn diwedd y flwyddyn:
  - CR Dyledwyr £4,300,000; a
  - DR Credyd £4,300,000.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**11.** Nid oes unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt.

## Risgiau Sylweddol

**12.** Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

| Risgiau potensial a asesir | Profi a gwblhawyd yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|
| **Cywirdeb data aelodaeth**<br>Yn dilyn mater a nodwyd ac a adroddwyd arno mewn blynyddoedd a fu, mae yna risg nad yw'r cofnodion aelodaeth gaiff eu dal yn y system weinyddol yn gyfredol, gan nad yw rhai cyrff Cyflogwyr bob amser yn darparu gwybodaeth briodol mewn pryd. | Wrth ymchwilio ymhellach i'r mater yma yn ystod yr archwiliad, fe nodwyd fod y risg yma ar gyfer cyrff derbynedig yn hytrach na'r gronfa bensiwn. |
| **Prisio buddsoddiadau**<br>Mae'r Gronfa'n gwneud rhyw ddefnydd o fuddsoddiadau mewn cyfryngau buddsoddi megis cronfeydd ecwiti preifat.<br>Mae anwadalrwydd y farchnad yn codi cwestiynau ynglŷn â sut i brisio cronfeydd ecwiti preifat. Fel arfer, byddai disgwyl i resymoldeb prisiad rheolwyr y Gronfa gael ei asesu trwy ei gymharu â'r archwiliad o gyfrifon diweddaraf y cronfeydd, wedi'u haddasu ar gyfer symudiadau arian parod dilynol (buddsoddiadau a dosraniadau) rhwng y cyfrwng buddsoddiad cyfunol a'r buddsoddwyr. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd y farchnad yn golygu efallai y bydd cymhariaeth o'r fath yn amhriodol, yn enwedig os oes llawer o amser rhwng archwilio'r cyfrifon diweddaraf a diwedd blwyddyn y Gronfa. | **Cynhaliodd fy nhîm archwilio y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol mewn perthynas â buddsoddiadau:**<br>• Profwyd sut mae rheolaethau yn y Gronfa yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu prisio'n gywir;<br>• Adolygwyd yr adroddiadau rheoli mewnol i gael dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli wrth i'r rheolwyr buddsoddi a'r rheolwyr adolygu ystyried yr adroddiadau hyn;<br>• Cawsom gadarnhad gan drydydd partïon o falansau buddsoddi ar 31 Mawrth 2016;<br>• Dewiswyd sampl o fuddsoddiadau gan ystyried y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd yn y prisiadau i asesu eu priodoldeb, gan gyfeirio at brisiadau annibynnol; a<br>• Ymgysylltwyd â'n harbenigwyr offerynnau ariannol i sicrhau bod ein dull profi yn briodol o ystyried strategaeth fuddsoddi a phortffolio penodol y Gronfa.<br>**Dim materion wedi eu nodi heblaw am eiddo** |

| Risgiau potensial a asesir | Profi a gwblhawyd yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|
| **Cywirdeb cyfrifiadau budd-daliadau**<br>Ym mis Ebrill 2008, gwnaed newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gyflwyno cymhlethdodau i'r gwaith o gyfrifo budd-daliadau ar ôl ymddeol a budd-daliadau salwch a marwolaeth, sy'n ychwanegol at y cynnydd blynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoleiddio a Phensiynau (Cynnydd) 1971.<br>Y risg a nodwyd oedd y gallai budd-daliadau taladwy gael eu cofnodi'n anghywir ac y gallai taliadau anawdurdodedig gael eu gwneud i aelodau nad ydynt yn bodoli. | **Cynhaliodd fy nhîm archwilio y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol mewn perthynas â budd-daliadau:**<br>• Profwyd sut mae rheolaethau yn y Gronfa yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau cywirdeb, cyflawnrwydd a dilysrwydd budd-daliadau trwy drafodaeth â'r tîm pensiynau, a gwiriwyd a oedd rheolaethau ar waith yn ystod blwyddyn yr adolygiad.<br>• Cafwyd rhestr o fudd-daliadau a dalwyd gan ddewis sampl o fudd-daliadau ar gyfer profion manwl. Profwyd y sampl trwy weld a oeddent yn cyd-fynd â'r ddogfennau ategol ac adolygwyd y cyfrifiad trwy gyfeirio at y gwasanaeth cymhwyso, rheolau'r Gronfa a dewisiadau budd-daliadau a wnaed gan yr aelod.<br>**Ni nodwyd unrhyw faterion.** |

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**13.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- Nid oes gennym bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu na'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.
- Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
- Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
- Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes.
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

**14.** Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 3. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

**15.** Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**16.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chronfa Bensiwn Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

29 Medi 2016

## Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2015-16

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o Adroddiad Cydnabyddiaeth a archwilir) Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gronfa Bensiwn Gwynedd ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.
- Mae gwybodaeth aelodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn gywir ac yn mynegi barn gwir a theg am aelodaeth y Gronfa Bensiwn.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

# Sylwadau gan Bwyllgor Archwilio Gwynedd

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio Gwynedd ar 29 Medi 2016.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Mae'r adroddiad archwilio yn cyfeirio at ddau gamddatganiad heb eu cywiro ym Mharagraff 10. Mae'r gyntaf yn farn ac nid yw'n sylweddol yng nghyd-destun gwerth y Gronfa. Dygwyd yr ail, sy'n cyfeirio at ddyledwyr a chredyd, ymlaen at sylw'r swyddogion perthnasol yn hwyr yn yr archwiliad ac nid oes ganddo effaith ar y llinell isaf, ond bydd yn cael ei ddatrys yn 2016-17.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Dafydd L Edwards<br>Pennaeth Cyllid<br>Cyngor Gwynedd | Cynghorydd Trevor Owen Edwards<br>Cadeirydd Pwyllgor Archwilio |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Gwynedd**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig

- Cyngor Sir Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon a datganiadau cyfrifeg Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Gwynedd ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

28 Medi 2016

Llofnod: ………………………………………….

# Atodiad 3

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

| **Gwella Rheoliadau Bancio** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae gan y Gronfa bedwar cyfrif banc. Nodwyd nad yw'r cyfrif banc ewro wedi ei osod ar system gyfrifeg eFinancials. Nodwyd hefyd yn Rhagfyr 2015, fod dau gyfrif banc wedi derbyn adolygiad cyn pryd (paratowyd ar 5 Ionawr 2016, gan adolygu ar 2 Chwefror 2016). Yn ychwanegol, nodwyd nad oedd un cysoniad cyfrif banc yn dangos unrhyw dystiolaeth o adolygiad a bod cysoniad cyfrif pellach ddim yn dangos unrhyw dystiolaeth iddo gael ei gymeradwyo ar gyfer ei baratoi na adolygu. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig. |
| **Argymhelliad** | Argymhellir fod y cyfrif ewro yn dod yn rhan o system gyfrifeg eFinancials. Yn ychwanegol, argymhellir fod y cysoniadau banc yn cael eu paratoi a'u hadolygu mewn pryd. |
| **Manteision gweithredu'r argymhelliad** | Byddai gwell rheolaeth dros y cyfrifon banc, gan adolygu'r rheolaeth a phrosesu eitemau cysoni mewn pryd. Yn ychwanegol, bydd sicrhau fod yr adolygiadau wedi eu cwblhau ac mewn pryd yn lleihau'r perygl o gamddefnyddio cronfeydd. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Yn rhannol. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Byddwn yn sicrhau fod yr holl gysoniadau banc yn cael eu hadolygu gan swyddog arall.<br>Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb dod a'r cyfrif Ewro ar y cyfriflyfr.<br>Mae'r system banc yn gofyn fod tri swyddog yn prosesu trafodion, sy'n lleihau'r perygl o gamddefnyddio cronfeydd. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ar unwaith ar gyfer yr adolygiad cysoni banc.<br>Yn ystod 2016-17 ar gyfer y cyfrif Ewro. |

| Adolygiad uwchradd | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd nad oedd y dyddlyfrau yn cael eu hadolygu gan aelod uwch o'r tîm cyn iddynt gael eu llenwi. Fe nodwyd hefyd nad oedd y cyfrif crog a ddefnyddir i ddyrannu cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr bron yn ddyddiol, a'r cyfrif crog sy'n cofnodi trafodion rhwng y Gronfa Bensiwn a Chyngor Gwynedd ddim yn cael eu cysoni yn ffurfiol a'u llofnodi fel a baratowyd ac yna'n cael eu hadolygu ar wahân. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig. |
| **Argymhelliad** | Argymhellir fod y dyddlyfrau yn cael eu hawdurdodi cyn iddynt gael eu llenwi. |
| **Manteision gweithredu'r argymhelliad** | Gwell trosolwg a rheolaeth a hefyd lleihau'r risg o ddiystyru rheolaeth a thwyll. Yn ychwanegol, mae adolygiad rheolaidd o'r cyfrif crog yn sicrhau bod yr holl drafodion yn cael eu dyrannu yn briodol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Yn rhannol |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r staff sydd â mynediad i'r dyddlyfrau ar lefel gyfrifol a byddai adolygu bob dyddlyfr yn cymryd amser rheoli, ond rydym yn bwriadu adolygu gwaith prosesu dyddlyfrau yn gyffredinol ac fe wneir hyn mewn ymgynghoriad gyda Deloitte. |
| **Dyddiad gweithredu** | Amherthnasol |

| Dylai buddsoddiadau gael eu cadw ar Werth y Farchnad | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd fod y Gronfa yn dal buddsoddiadau yn y cyfriflyfr ar gost y llyfr, yn dibynnu ar set gymhleth o daenlenni i gysoni ac yn tarddu o werth diwedd blwyddyn y farchnad. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir fod buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu dal ar werth y farchnad ar yn y cyfriflyfr. |
| **Manteision gweithredu'r argymhelliad** | Byddai cofnodi buddsoddiadau ar werth y farchnad yn y cyfriflyfr yn tynnu'r ddibyniaeth ar daenlenni maniwal Excel cymhleth sy'n cysoni'r buddsoddiadau rhwng gwerth y farchnad a gwerth llyfr i baratoi cyfrifon diwedd y flwyddyn. |
| **Derbyniwyd y llawn gan y rheolwyr** | Yn rhannol |
| **Ymateb y rheolwyr** | Byddwn yn ystyried ymarferoldeb cofnodi gwerth y farchnad ar y cyfriflyfr. Nid yw gwerth y farchnad diwedd y flwyddyn yn tarddu o'r cysoniad. Mae'n tarddu o'r adroddiadau gan y ceidwad a'r rheolwyr buddsoddi. Mae cysoniad yn sicrhau fod cofnodion y cyfriflyfr yn gywir. |
| **Dyddiad gweithredu** | Yn ystod 2016-17. |

| Rhifau Aelodaeth | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd na fedrai'r Rheolwr Pensiwn ddarparu cysoniad rhif aelodaeth rhwng 2014-15 a 2015-16.<br>Dylai'r cysoniad ddangos symudiadau aelodau yn y flwyddyn ariannol a newidiadau ôl-weithredol a ddiwygiodd unrhyw ffigyrau cyn y flwyddyn. Byddai'r cysoniad hwn yn caniatáu i ni archwilio symudiad rhifau aelodau, nad ydym wedi gallu eu gwneud. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir fod y Rheolwr Pensiwn yn datblygu adroddiad Altair sy'n gallu cyfrif cyfanswm (ac adnabod unigolion) y newidiadau ôl-weithredol i ddata aelodaeth.<br>Yn ychwanegol, argymhellir fod y Gweinyddwr Bas Data Pensiwn yn rhedeg darn o'r data Aelodaeth ar neu mor agos at 31 Mawrth â phosib.<br>Argymhellir hefyd fod Rheolwr y Gronfa Bensiwn yn cynnal cysoniad rhwng rhifau aelodaeth adroddiad cyn y flwyddyn a diwygio nifer aelodaeth. |
| **Manteision gweithredu'r argymhelliad** | Bydd yr argymhellion yn rhoi gwell trosolwg o'r newidiadau i aelodaeth y Gronfa Bensiwn. Yn ychwanegol, bydd y camau hyn hefyd yn gwella cywirdeb y data ar gyfer prisiad yr actiwari a gwell cywirdeb dros atebolrwydd y Gronfa. |
| **Derbyniwyd y llawn gan y rheolwyr** | Yn rhannol. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Datblygir adroddiad Altair i gynhyrchu'r symudiadau mewn aelodaeth rhwng dau ddyddiad penodol. Byddai hyn yn galluogi cysoni.<br><br>Ni fydd rhedeg darn o ddata aelodaeth yn agos at 31 Mawrth yn datrys y broblem gan fod data Mawrth yn cael ei gofnodi yn ystod Ebrill pan gaiff ei dderbyn gan y cyflogwyr. |
| **Dyddiad gweithredu** | Yn ystod 2016-17. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk